IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 3 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hudson a/ac Lloyd |

6 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

7 : CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – TECAWÊ TSIEINEAIDD SUN SUN, Y MYNYDD BYCHAN

Methodd yr ymgeisydd â mynd i'r gwrandawiad o'r Cais i amrywio'r Drwydded Safle bresennol.

Mae'r Drwydded Safle bresennol yn caniatáu'r canlynol:

> Lluniaeth gyda'r hwyrnos: Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 02:00

Dyma gyflwyno'r cais amrywio canlynol:

> Caniatáu lluniaeth gyda'r hwyrnos: Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 00:00
>
> Caniatáu oriau estynedig y caniateir i alcohol gael ei werthu i'w yfed ar y safle: Dydd Llun i Ddydd Sul 16:00 i 00:00

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ysgrifenedig ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

8 : CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – CFELEVEN, GLAN-YR-AFON

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Jason Arthur Hamer<br>Jon Wallsgrove cyfreithwyr Blake Morgan ar ran Mr Hamer |
| Parti â Diddordeb: | Y Cynghorydd Iona Gordon, ar ran preswylwyr Heol y Gadeirlan a strydoedd yn y cyffiniau. |

<u>Y Cais</u>

Cais i gyflwyno Trwydded Safle gan Mr Jason Hamer ar gyfer CFEleven, 151 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9PJ.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle: Dydd Llun i Ddydd Sul 10:00 i 23:00

Oriau agor: 24 awr y dydd

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd wedi cytuno i newid ei gais er mwyn iddo gynnwys ei fwriad i werthu alcohol i'w yfed ar y safle yn unig. Yn ogystal â hynny, mae wedi cytuno i amodau mewn sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru. Cafodd yr amodau canlynol eu derbyn gan yr ymgeisydd:

1 System CCTV i safon yn sgil cytundeb, i'w chymeradwyo gan Heddlu De Cymru, i'w cynnal a defnyddio ar bob adeg y bydd y safle yn agored i'r cyhoedd. Bydd y system yn ffilmio pob rhan o'r safle y mae modd i'r cyhoedd ei chyrraedd (ac eithrio lletyau a thoiledau) gan gynnwys mynedfeydd, allanfeydd a mannau allanol ar gyfer yfed diodydd alcoholig. Caiff delweddau eu cadw am o leiaf 31 diwrnod. Bydd y delweddau yn cael eu cyflwyno i aelod o staff yr heddlu mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl eu gweld ar unwaith yn dilyn cais, pan fo'r safle yn agored i'r cyhoedd ac ar bob adeg arall cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. (gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth diogelu data). Hyfforddir staff yn ddigonol i hwyluso'r uchod. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn amlwg ar y safle er mwyn rhoi gwybod bod CCTV ar waith.

2 Caiff digwyddiadau eu nodi mewn llyfr penodol a fydd yn cael ei gadw ar y safle. Bydd y llyfr digwyddiadau'n cynnwys tudalennau sydd wedi'u rhifo'n olynol a chaiff y canlynol ei gofnodi ynddo: unrhyw ddigwyddiadau a allai fod o ddiddordeb i'r heddlu; e.e. troseddau ac anrhefn, materion lle y mae diogelwch plentyn a/neu y cyhoedd mewn perygl, achosion o niwsans i'r cyhoedd.

3 Caiff sgrin fonitro ei osod yn y bar er mwyn galluogi staff i fonitro ymddygiad cwsmeriaid nad oes modd iddyn nhw eu gweld.

4 Chaiff cwsmeriaid mo eu caniatáu i adael y safle gyda diodydd alcoholig.

5 Bydd hysbysiadau amlwg, eglur a darllenadwy ger allanfeydd sy'n gofyn i gwsmeriaid adael mewn modd tawel a threfnus, gan barchu hawliau trigolion lleol.

6 Ni chaiff personau iau na 18 oed fod yn yr ardal drwyddedadwy oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

<u>Sylwadau Parti â Diddordeb</u>

Rhoddodd y Cynghorydd Gordon wybod ei bod yn cynrychioli preswylwyr Heol y Gadeirlan a strydoedd yn y cyffiniau. Roedd preswylwyr yn pryderu y byddai cymeriad yr ardal yn cael ei newid o ganlyniad i gyflwyno Trwydded Safle i CFEleven, sy'n rhan o Heol y Gadeirlan sydd â llawer o breswylfeydd, gan arwain at ragor o sŵn ac achosion o yfed alcohol gyda'r hwyrnos. Mae rhai gwestai ond yn ogystal â hynny mae cartref gofal preswyl mawr yn y cyffiniau.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Bu Jon Wallsgrove yn siarad yn yr Is-bwyllgor ar ran yr ymgeisydd. O ran ei gefndir, mae Mr Hamer wedi bod yn berchen ar y safle ers 12 o flynyddoedd. Yn wreiddiol roedd ganddo 26 o ystafelloedd ond erbyn hyn dim ond 13 sydd ganddo yn sgil trosi'r ystafelloedd eraill yn ystafelloedd ymolchi ensuite. Mae Mr Hamer yn byw drws nesaf i’r safle. Mae 8 o’r ystafelloedd hynny uwchben yr ardal lle bydd y bar, sy'n cynnwys ystafell flaen a dwy ystafell lai ar y llawr gwaelod. Unig fwriad Mr Hamer, drwy wneud cais am y drwydded safle, yw cynyddu sgôr busnes ei westy drwy allu cynnig y cyfleuster hwn.

Rhoddwyd gwybod i’r Is-bwyllgor bod y bar yn annhebygol i dafarn; does dim gosodiadau rhyddhau gwirodydd; bydd un cwrw drafft; nifer fechan o gyrfau potel; a detholiad bach o winau. Mae modd croesawu hyd at 45-55.

Fydd dim gwerthu oddi ar y safle a chaiff yfed mo ei ganiatáu yn y mannau awyr agored. Defnyddir yr ardd fach yn y cefn ei defnyddio'n ardal ysmygu.

Pwysleisiodd Mr Wallsgrove nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu yn sgil cytuno ar yr amodau amrywiol; nid oedd iechyd yr amgylchedd na’r cartref gofal cyferbyn yn gwrthwynebu chwaith.

O ganlyniad i gwestiynau gan yr I—bwyllgor, rhoddodd Mr Wallsgrove wybod na fyddai'r safle ar gael i'w logi ar gyfer partïon na phriodasau; fydd dim trwydded ar gyfer ystafelloedd; does dim gwasanaeth ystafell' fydd dim darllediadau o ddigwyddiadau.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ysgrifenedig ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi’r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

9 : CAIS AM DRWYDDED PEIRIANT HAPCHWARAE

PENDERFYNWYD - Y dylid diddymu'r Drwydded ar gyfer Peiriant Gemau gan na thalwyd y ffi flynyddol:

1 Clwb Rygbi Tredelerch

2 Clwb Rygbi Tongwynlais

10 : COFRESTRU LOTERI CYMDEITHAS FACH

PENDERFYNWYD - Y dylid diddymu'r cofrestriadau Loteri Cymdeithas Fach a ganlyn gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol:

1 Banc NAT West – Ffrindiau Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru

2 Posau Awtistiaeth

3 Clwb Pêl-droed Cyncoed

4 Grŵp Elusennol Llys Ynadon Caerdydd

5 Cadw Plant yn Ddiogel Ar-lein

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified